



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

salix

DIGARBON

**Cronfa Ddatgarboneiddio Addysg
Drydyddol yng Nghymru**

Nodiadau Cyfarwyddyd

Mai 24



Cynnwys

1	Digarbon – Cronfa Ddatgarboneiddio Addysg Drydyddol yng Nghymru	3
1.1	Cyflwyniad	3
2	Cymhwysedd ceisiadau	3
2.1	Pwy sy'n cael ymgeisio?	3
2.2	Llunio eich cais	3
2.3	Adeiladau cymwys	4
2.4	Costau cymwys	4
3	Cymhwysedd technegol	5
3.1	Technolegau cymwys	5
3.2	Meini prawf technegol	7
4	Cyfrifoldebau a chymhwysedd	7
5	Y broses ymgeisio	8
5.1	Cyhoeddi a ffenestri	8
5.2	Cyflwyno eich cais	8
5.3	Proses asesu	9
5.4	Canlyniad	10
5.5	Dyfarnu cyllid	10
6	Ymgeiswyr llwyddiannus	11
6.1	Gofynion adrodd	12
6.2	Newidiadau i'r prosiect	12
7	Talu ac ad-dalu'r benthyciad	12
7.2	Tynnu'r benthyciad i lawr	12
7.3	Manylion a chyfraddau llog y benthyciad	12
7.4	Ad-dalu'r benthyciad	12
7.5	Monitro ac adrodd ar ôl cwblhau	13
8	Cymorth a chyngor	13
	Atodiad 1 – Rhestr technolegau cymwys	14
	Atodiad 2 – Esiamplau o wybodaeth dechnegol ategol	16
	Atodiad 3 – Geirfa	19
	Rheoli diwygiadau	21

1 Digarbon – Cronfa Ddatgarboneiddio Addysg Drydyddol yng Nghymru

1.1 Cyflwyniad

Mae Digarbon yn darparu £20m o gyllid benthyciadau ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru i gefnogi gweithredu mesurau seilwaith datgarboneiddio gwres, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, a cherbydau trydan a seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer y cynllun i helpu'r sector cyhoeddus i gyflawni ei uchelgais i fod yn sero net erbyn 2030, a'r targed cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth y DU i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net ledled y DU erbyn 2050.

Mae'r cynllun yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Gwres Cymru drwy weithredu atebion gwres carbon isel, gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau'r galw am wres, wrth gynyddu capasiti ynni adnewyddadwy. Bwriad y cynllun yw cael ei ddefnyddio'n gyfannol gyda chyllid arall gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach er enghraifft, Rhaglen Ariannu Cymru, a ddarperir hefyd gan Salix.

Bydd cyfradd llog sefydlog ar gyfradd fenthycia bresennol y Llywodraeth o 2.05% yn cael ei chymhwyso ar y benthyciad. Ni fydd y gyfradd yn newid yn ystod cyfnod y benthyciad. Rhaid ad-dalu'r benthyciad llawn gan gynnwys yr holl log i Salix erbyn 31 Hydref 2048.

2 Cymhwysedd ceisiadau

2.1 Pwy sy'n cael ymgeisio?

Mae Digarbon ar gael i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn unig. Rhaid i'r sefydliad fod yn gorff sector cyhoeddus fel y'i diffinnir yn [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015](#). Cyfeirir at y rhai sy'n gwneud cais yn y ddogfen hon fel 'yr ymgeisydd'.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd fod yn derbyn mwy nag 80% o incwm o weithgareddau addysgol nad yw mentrau masnachol a deilliadol wedi'u cynnwys.

Capiau sector

Bydd cap sector 'meddal' yn cael ei gymhwyso wrth ddyrannu cyllid y bydd 25% o'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i'r Sector Addysg Bellach, gyda 75% wedi'i ddyrannu i'r Sector Addysg Uwch. Mae'r capiau sector hyn yn 'feddal' ac os na fydd digon o geisiadau llwyddiannus i ddyrannu cyllid i sector yn llawn, bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i'r sector arall.

2.2 Llunio eich cais

Rhif cais, maint a chwmpas

Isafswm gwerth cais yw £250,000. Nid oes uchafswm maint y cais.

Dim ond un cais a ganiateir ar gyfer pob sefydliad. Er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, mae Salix ar ran Llywodraeth Cymru, yn cadw'r hawl i ariannu ceisiadau'n rhannol, neu i ddyrannu rhannau o'ch cais i Raglen Cyllid Cymru. Gweler adran 5.5. am fwy o wybodaeth.

Gellir cynnwys nifer o fesurau ac adeiladau mewn un cais ar yr amod bod y cais yn parhau i gydymffurfio.

Amserlenni cwblhau

Bydd gan ymgeiswyr tan 31 Mawrth 2028 i gyflawni'r prosiect o'r dyddiad y bydd y cytundeb yn cael ei lofnodi.

2.3 Adeiladau cymwys

Dim ond adeiladau annomestig presennol sy'n eiddo i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch cymwys yng Nghymru y gellir eu cynnwys yn y cais. Gellir cynnwys adeiladau ar brydlesi hirdymor gydag o leiaf 10 mlynedd yn weddill. Mae ymgeiswyr sydd â threfniant prydles hirdymor ar gyfer adeilad gan gorff sector cyhoeddus arall (e.e. llywodraeth leol) lle mae'r contract prydles yn caniatáu i'r arbedion cost drwy well effeithlonrwydd ynni gael eu trosglwyddo i'r corff cyhoeddus cymwys yn gymwys i wneud cais.

Mae adeiladau o dan gontractau PPI/PFI ond yn gymwys os caiff yr arbedion effeithlonrwydd ynni eu trosglwyddo i'r corff cyhoeddus cymwys sy'n gwneud cais am y benthyciad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth bod hyn wedi cael ei negodi'n glir gyda'r partneriaid i'r cytundeb a'i fod wedi'i gytuno â Salix cyn cyflwyno'r cais.

Mae Salix yn cydnabod bod llawer o adeiladau sy'n eiddo i brifysgolion a cholegau yn cynnwys adeiladau rhestredig ac adeiladau teilwng. Rhaid i geisiadau sicrhau bod gofynion adeilad rhestredig yn cael eu bodloni ac ystyried effeithiau niweidiol posibl ar ymddangosiad allanol a pherfformiad y strwythurau gwreiddiol, er enghraifft trwy achosi anwedd a lleithder.

2.4 Costau cymwys

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer cynllun manwl prosiect hyd at weithgareddau cwblhau fel comisiynu.

Mae'r costau cymwys yn cynnwys:

- nodi prosiect a datblygu dyluniad (yn benodol i'r prosiect y gwneir cais amdano, a'i ddyddio 12 mis o'r adeg cytuno ar fenthyciad),
- caffael
- prynu offer a deunyddiau,
- adeiladu, gosod, codi, a chomisiynu,
- rheoli prosiect (allanol),
- gwaith galluogi ac ategol,
- ffioedd DNO.

Ni fydd costau cyfalaf sy'n cael eu hysgwyddo cyn dyddiad y cytundeb rhwng Salix a'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer cyllid. [Cysylltwch â ni](#) am unrhyw ymholiadau am cymhwysedd costau.

Rheolau rheoli cymhorthdal

Mewn rhai achosion, gall sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu fel mentrau fel y'u diffinnir yn Adran 7(1) o [Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022](#). Rhaid i bob sefydliad sector cyhoeddus a ddsbarthir fel 'gweithredwyr economaidd' o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau rheoli cymhorthdal. Bydd sefydliad sector cyhoeddus yn fenter os yw'n ymwneud â gweithgaredd economaidd drwy gynnig nwyddau neu wasanaethau mewn marchnad.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddatgan unrhyw weithgaredd economaidd yn eu cais, gan gynnwys ei werth o fewn cyfanswm dyfarniad y prosiect. Bydd angen i unrhyw gymorthdaliadau gydymffurfio ag egwyddorion a gofynion tryloywder y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA) yn ôl yr angen. Os yw'r ymgeisydd, mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd economaidd, wedi derbyn llai na £315,000 o Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA) dros gyfnod o dair blynedd ariannol, ni fyddai'r benthyciad yn dod o dan y rheolau rheoli cymhorthdal. Bydd angen i ymgeiswyr o dan y terfyn hwn gwblhau datganiad Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), a fydd yn cael ei nodi yng nghytundeb y benthyciad.

Mae rhagor o wybodaeth am y [drefn rheoli cymhorthdal](#) ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am fentrau yng nghyd-destun pwerau cyhoeddus y cyfeirir atynt yng [Nghanllawiau Statudol ar gyfer Cynllun Rheoli Cymhorthdal y DU](#).

Meini prawf ychwanegol

Mae hefyd yn ofynnol i brosiectau fodloni'r meini prawf o fod yn 'ychwanegol' sy'n golygu:

- Nid yw'n ofynnol i'r mesurau dan sylw gael eu gosod yn ôl y gyfraith (gan gynnwys deddfwriaeth adeiladu neu iechyd a diogelwch).
- Ar gyfer mesurau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gellir ceisio cyllid benthyciad ar gyfer y costau uwch.
- Nid yw'r mesurau'n cael eu gosod gyda'r bwriad o ennill elw masnachol (ac eithrio lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni).
- Nid yw gosod y mesurau dan sylw wedi dechrau.
- Nid yw cyllid ar gyfer y prosiect sydd i'w gyflenwi gan gynllun Digarbon wedi'i gytuno drwy ffynhonnell arall; ac
- Ym marn resymol Salix, ni fyddai'r prosiect yn digwydd heb y benthyciad.

3 Cymhwysedd technegol

3.1 Technolegau cymwys

Prif bwrpas y cynllun yw gweithredu atebion gwres carbon isel a lleihau'r galw am wres; felly, rhaid i bob cais i'r cynllun gynnwys o leiaf un o'r canlynol:

- Gosod system wresogi carbon isel, neu
- Gosod ffabrig adeiladu wrth baratoi ar gyfer system wresogi carbon isel, neu
- Gosod ac uwchraddio systemau dosbarthu gwres ac allyrwy, wrth baratoi ar gyfer system wresogi carbon isel benodol.

Yn ogystal â'r mesurau gwresogi carbon isel uchod, mae'r cynllun hefyd yn cefnogi'r mesurau canlynol i wella effeithlonrwydd ynni a chynyddu capasiti ynni adnewyddadwy:

- Mesurau effeithlonrwydd ynni
- Ynni adnewyddadwy
- Cerbydau trydan a seilwaith gwefru cerbydau trydan
- Gwaith galluogi cymwys ar gyfer y mesurau uchod.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth yn eu cais o sut mae gweithredu'r mesurau hyn yn cyfrannu naill ai at ddatgarboneiddio gwres eu hystad neu'n cyfrannu at strategaeth sero net.

Gellir gweld rhestr lawn o dechnolegau cymwys yn Atodiad 1.

Dull adeilad cyfan a ffabrig yn gyntaf

Mae Digarbon yn canolbwyntio ar osod gwres carbon isel. Disgwylir i ymgeiswyr gymhwyso'r egwyddorion canlynol wrth ddylunio prosiectau i weithredu system wresogi carbon isel effeithlon a chost-effeithiol:

- Cymhwyso dull 'adeilad cyfan' sy'n cynnwys mesurau cadwraeth ynni ac eraill sy'n lleihau'r galw am wres neu drydan, gan ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at ddefnydd ynni adeilad.
- Cymhwyso dull 'ffabrig yn gyntaf' o wella perfformiad thermol drwy flaenoriaethu gwelliannau i ffabrig yr adeilad i'r lefel sy'n briodol ar gyfer pob adeilad a restrir ar y ffurflen gais. Ymhlith y mesurau disgwyliedig i'w hystyried mae inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio atig, a ffenestri.

Bydd angen sylwebaeth a thystiolaeth ategol i ddangos bod ymgeiswyr wedi mabwysiadu dull 'adeilad cyfan' wrth gynllunio sut i ddatgarboneiddio eu hadeiladau, gan ddangos eu bod wedi lleihau'r defnydd o ynni ar y safle i sicrhau nad yw'r offer gwresogi sydd wedi'i osod yn fwy nag y mae angen iddo fod.

Pan fo'r gwelliannau uchod yn cael eu hepgor o'r cais, rhaid i ymgeiswyr ddangos yn ddigonol (e.e. astudiaeth dichonoldeb neu dystiolaeth o ran cost) eu bod wedi cael eu hystyried ac nad ydynt yn rhesymol hyfyw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i sefyllfa pan fo ymgeiswyr eisoes wedi gweithredu lefel optimaidd o inswleiddio yn yr adeilad(au) sydd wedi'u cynnwys yn y cais.

Technolegau gwresogi carbon isel

Disgwylir i ymgeiswyr ddarparu cyfiawnhad technegol gadarn dros y system wresogi carbon isel arfaethedig a dangos sut y maent wedi dilyn egwyddorion dylunio arfer gorau. Ar gyfer rhai technolegau a chyfluniadau system wresogi, bydd ymgeiswyr yn cynnwys gwybodaeth bwrsasol lle bo'n berthnasol i'r system wresogi carbon isel arfaethedig.

Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut mae'r math o system wresogi (*yn annibynnol neu'n rhaeadru*) yn ymarferol ar gyfer yr adeilad. Mewn system rhaeadru, dylid darparu tystiolaeth i ddangos mai'r trefniadau arfaethedig yw'r ateb mwyaf priodol i'r adeilad hwnnw gyflawni tymereddau/nodweddion gweithredu llif penodol.

Mae *pymphiau gwres aer-i-aer* yn gymwys ar yr amod:

- Bod astudiaeth ddichonoldeb fanwl a/neu arfarniad opsiynau yn dangos nad yw technolegau amgen yn hyfyw.
- Bod yr adeilad ar hyn o bryd wedi'i aerdymheru a bod y systemau gwresogi ac oeri yn cael eu disodli gan y pwmp gwres aer-i-aer.
- Prif ddefnydd y dechnoleg yw ar gyfer gwresogi.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer *boeleri biomas* a rhaid iddynt ddangos y byddant yn cael eu gweithredu mewn modd sy'n gynaliadwy, yn ogystal â lliniaru effeithiau annymunol posibl ar ansawdd aer. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos pam mae biomas yn fwy addas na dewisiadau eraill carbon isel, er enghraifft, lle nad oes seilwaith priodol ar waith i gynnal pwmp gwres.

Atebion gwres arloesol; e.e., gallai pymphiau gwres o'r ddaear, mewn rhai achosion, fod yn ddrytach i'w gweithredu ond gallant fod yn fwy effeithlon nag atebion eraill. Ar gyfer prosiectau pwmp gwres o'r ddaear, dylai ymgeiswyr ddarparu arolwg daear ar ddylunio system ffynhonnell ac astudiaeth dichonoldeb ar fanylebau ac effeithlonrwydd pwmp gwres.

Rhwydweithiau gwres

Mae cysylltiad â rhwydwaith gwres ardal presennol yn gymwys. Mae uwchraddio rhwydwaith gwres ardal presennol sy'n eiddo i gorff y sector cyhoeddus, ac estyniadau i rwydweithiau gwres presennol y campws i gysylltu adeiladau pellach hefyd yn gymwys.

Mae creu rhwydwaith gwres ardal newydd sydd wedi'i leoleiddio i adeiladau'r ymgeisydd a/neu gampws yn gymwys.

Os dymunir, gellir defnyddio'r cais ar y cyd â ffynonellau cyllid eraill ar gyfer datblygu rhwydwaith gwres.

Technolegau tanwydd ffosil

Nid yw gosod offer gwresogi tanwydd ffosil newydd, fel boeleri olew / nwy, a gwres a phŵer cyfun nwy, yn gymwys o dan y cynllun hwn. Bydd boeleri a thechnolegau tanwydd ffosil newydd a ariennir gan gyfraniad yr ymgeisydd, neu waith a ystyrir y tu allan i gwmpas y cais, hefyd yn eithrio prosiect yn benodol rhag bod yn gymwys.

Pan fyddwch yn gosod mesurau gwres carbon isel, dim ond ar yr amod bod y system bresennol yn cael ei chadw ar gyfer amgylchiadau eithafol at y diben o ddarparu wrth gefn, fel dewis olaf ac ategu gwresogi yn ystod yr amodau galw brig. Rhaid esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gadw systemau presennol yn glir yn y cais. Yn yr achos hwn, rhaid i geisiadau ddangos bod yr ateb gwresogi presennol wedi'i optimeiddio er mwyn sicrhau'r budd carbon

mwyaf posibl trwy athroniaeth reoli'r system.

Effeithlonrwydd ynni a mesurau galluogi yn unig

Gellir ailgyfeirio ceisiadau a ffurfiwyd o fesurau effeithlonrwydd ynni a galluogi yn unig, a restrir o dan 'fesurau eraill' yn Atodiad 1 i [Raglen Cyllid Cymru](#) ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â meini prawf y cynllun. Gweler [Dyfarnu cyllid](#) am ragor o wybodaeth.

Cerbydau trydan a seilwaith gwefru cerbydau trydan

Mae technolegau cymwys yn cynnwys cerbydau trydan batri (BEV) a cherbydau trydan celloedd tanwydd hydrogen (FCEV). Nid yw'n cynnwys cerbydau trydan hybrid (HEV), eFuel, HVO, peiriant tanio mewnol Hydrogen a thanwydd peiriant tanio mewnol arall.

Cerbyd trydan yn unig

Nid yw ceisiadau sy'n cynnwys cerbydau trydan a/neu seilwaith gwefru cerbydau trydan yn unig yn gymwys. Rhaid cyfuno'r ceisiadau hyn â mesurau eraill.

Cerbydau trydan newydd

Rhaid i geisiadau am gerbydau trydan newydd nad ydynt yn cynnwys amnewid cerbyd tanwydd ffosil presennol gyflwyno cynllun pontio fflyd.

3.2 Meini prawf technegol

Metrig cost carbon

Defnyddir metrig cost carbon i adolygu'r buddion dros oes y prosiect sy'n cael ei gyfrifo'n awtomatig gan offeryn cymorth Salix yn y ffurflen gais. Bydd y metrig cost carbon yn gwerthuso gwerth am arian y prosiect arfaethedig. Er nad oes gofyniad trothwy i brosiect gael ei ystyried yn gymwys, bydd prosiectau yr ystyrir eu bod â gwerth effeithiol am arian yn cyflawni cost carbon o dan £550 tCO₂e.

Mae Salix yn deall efallai na fydd cost garbon o £550 tCO₂e neu lai yn hyfyw. Gallai amgylchiadau arferol (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Llai o oriau gweithredol o adeiladau.
- Lleoliad gwledig adeiladau sy'n cynyddu cost contractwyr a/neu ddeunydd.
- Rhai adeiladau sydd angen mesurau gwell neu bwrpasol i gefnogi'r newid i ateb pwmp gwres.
- Mesurau arloesol a allai fod yn fwy effeithlon nag atebion nodweddiadol.

Sylwer, os yw cais yn fwy na £550 tCO₂e, rhaid i ymgeiswyr hefyd rannu rhesymeg glir a manwl sy'n egluro pam mae hyn yn digwydd. Mae Salix yn cadw'r hawl i benderfynu beth yw hyblygrwydd rhesymol ar y metrig cost carbon i gynnal defnydd effeithiol o'r arian sydd ar gael.

Nid yw arbedion carbon rhagamcanol o geisiadau am gerbydau trydan newydd ac EVCI nad ydynt yn cynnwys amnewid cerbyd tanwydd ffosil yn cael eu cynnwys yn y metrig cost carbon.

Ad-dalu'r prosiect

Nid oes gofyniad ad-dalu technegol ar gyfer prosiectau, ond rhaid i ymgeiswyr allu dangos cynllun ad-dalu cadarn o'r benthyciad a gallu dangos tystiolaeth yn y cais o sut maent yn bwriadu ad-dalu'r gwerth benthyciad y gofynnwyd amdano, ynghyd â llog, heb fod yn hwyrach na 31 Hydref 2048. Am fwy o wybodaeth, gweler [Ad-dalu'r benthyciad](#).

4 Cyfrifoldebau a chymhwysedd

Mae Salix yn tybio bod yr ymgeisydd a'u partner(iaid) yn gymwys ac yn gwbl gyfrifol am ariannu'r prosiectau. Rhaid i'r ymgeisydd sector cyhoeddus sicrhau bod atebolrwydd am y cais, y gwaith o gyflawni prosiectau a

Ilywodraethu gan y Swyddog Awdurdodi a'r prif gyswllt ac nad yw hyn yn cael ei drosglwyddo i gontractwyr. Cyfrifoldeb ymgeisydd y sector cyhoeddus yw sicrhau eu bod nhw, a'u partneriaid, yn cyflawni yn unol â'r cytundeb benthyciad, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cwblhau'r ffurflen gais gan gadw at y gofynion a nodir yn y tab Canllaw ac nid yw data wedi'i ludo i gelloedd.
- Y cais yn cael ei baratoi mewn modd penodol i safle, gyda mewnbynnau data a manylion y safle yn adlewyrchu natur unigryw pob cais; a chefnogir y cais gan arfarniadau opsiynau pwrpasol sy'n adlewyrchu nodweddion penodol pob safle.
- Sefydlu costau yn gywir a sut y ceisiwyd arbedion amcangyfrifedig.
- Cymerwyd dilyniannu prosiectau rhesymol a gofal dyladwy wrth ddewis prosiectau cyfalaf i sicrhau nad oes cyfrif dwbl o arbedion carbon wrth ystyried sawl prosiect ar yr un safle.
- Mae dewis cyflenwr(wyr) addas yn dilyn gweithdrefn gaffael yr ymgeisydd a'u bod yn asesu ac yn lliniaru'r risg o dwyll wrth gaffael, cadwyn gyflenwi a gweithredu prosiectau.
- Adnoddau a chapasiti sydd ar gael i reoli'r gwaith o gyflawni ac adrodd ar gynnydd prosiectau.
- Darparu'r holl anfonebau a thystysgrifau cwblhau (lle bo hynny'n briodol) mewn perthynas â'r gwasanaethau a gyflawnir ar y prosiect(au) gan y gallai fod eu hangen arnynt i archwilio'r prosiect(au)
- Cwblhau gweithgareddau ar ôl cwblhau'r prosiect gan gynnwys gwirio arolygon cynilion a bodlonrwydd.

5 Y broses ymgeisio

5.1 Cyhoeddi a ffenestri

Cyhoeddwyd Digarbon ym mis Ebrill 2024. Cyhoeddwyd y Nodiadau Cyfarwyddyd ym mis Mai 2024. Bydd y ffurflen gais yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2024.

Bydd un ffenestr ar gyfer ceisiadau yn agor ym mis Gorffennaf ac yn cau ym mis Awst 2024.

5.2 Cyflwyno eich cais

Dim ond ymgeiswyr cymwys sy'n cael cyflwyno ceisiadau drwy'r porth ar-lein, er y gall partion allanol ddarparu cymorth i baratoi'r ffurflen gais a dogfennau ategol. Pe bai'r cais yn cael ei gyflwyno gan barti allanol, mae Salix yn cadw'r hawl i wrthod y cais.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod ceisiadau'n gyflawn hyd eithaf eu gwybodaeth ar adeg eu cyflwyno ac yn cael eu hannog i adolygu telerau ac amodau'r cynllun cyn cyflwyno eu cais.

Porth y cais

Ewch i dudalen we Digarbon i greu cyfrif neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol.

Ffurflen gais a dogfennau ategol

Dylai'r ffurflen gais ynghyd â dogfennau ategol gael eu lanlwytho a'u cyflwyno drwy'r porth. Rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau a gyflwynir fod yn benodol i'r prosiect y gwneir cais amdano. Gellir cynnwys nifer o adeiladau, mesurau a/neu brosiectau mewn un cais ar yr amod bod y cais yn cydymffurfio â meini prawf y cynllun.

Dylai ymgeiswyr ystyried y dystiolaeth fwyaf priodol i'w darparu yn seiliedig ar y mesurau sy'n cael eu defnyddio ac amgylchiadau penodol eu hadeiladau.

Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth cost ddangosol ar gyfer yr holl fesurau sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y prosiect, dyfyniadau, torri costau a chronfeydd wrth gefn ariannol yr ymgeisydd (a ariennir trwy gyfraniad yr ymgeisydd) a ddyrennir i'r prosiect. Dylai hyn hefyd gynnwys ystyried costau gweithredol.

Mae'r dogfennau a'r dogfennau ategol canlynol yn hanfodol ar gyfer cais cyflawn:

- Ffurflen gais Digarbon
- Tystiolaeth o gost (dadansoddiad a dyfyniadau, CAPEX)
- Cyfrifiadau arbed ynni (taenlen Excel heb ei chloi neu fodelu ynni gyda sylwebaeth)
- Ffigurau ynni adeiladu (data mesurydd, biliau hanesyddol neu DEC)
- Adroddiad arfarnu opsiynau
- Astudiaeth ddichonoldeb
- Cofrestr risg
- Rhaglen y prosiect
- Amserlen amorteiddio benthyciadau
- Awdurdodi Datganiad Swydddogol
- Awdurdodi Gwrth-dwyll

Yn dibynnu ar gwmpas technegol y cais, efallai y bydd angen dogfennau ychwanegol ar rai technolegau a dyluniadau system wresogi, lle bo hynny'n berthnasol:

- Sgematig y system wresogi bresennol ac arfaethedig
- Arolwg o'r system dosbarthu gwres presennol
- Cyfrifiadau colli gwres brig i ddangos bod y system wresogi arfaethedig o'r maint cywir
- Cynllun pontio cerbydau trydan
- Tystiolaeth o'r capasiti trydanol presennol
- Tystiolaeth o'r ardal wresogi (m²)
- Cynllun datgarboneiddio gwres

Gellir gweld rhestr o wybodaeth dechnegol ategol ychwanegol yn Atodiad 2.

Darparu awdurdodiad

Rhaid i ymgeiswyr neilltuo Prif Gyswllt, Cyswllt Cyllid, a Swydddog Awdurdodi ar adeg gwneud cais sy'n atebol am y cais, y gwaith o gyflwyno prosiectau a nawdd y prosiect. Bydd gofyn i'r Swydddog Awdurdodi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'i gymeradwyaeth wrth gyflwyno cais.

5.3 Proses asesu

Mae Salix yn sicrhau dull teg o ddyrannu cyllid - bydd pob cais yn cael ei asesu a'i sgorio yn seiliedig ar ansawdd. Wrth i geisiadau fynd drwy'r broses asesu, gellir cysylltu ag ymgeiswyr am eglurhad ar eu cais. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod y prif gyswllt, neu rywun o fewn y sefydliad ar gael i ymdrin ag unrhyw ymholiadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae ceisiadau a dogfennau ategol yn cael eu hadolygu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf.

- Cam 1 Gwiriad ansawdd cychwynnol *Sicrhau cymhwysedd a chyflawnrwydd.*
- Cam 2 Asesiad technegol llawn *Adolygu ceisiadau a dogfennau ategol a'u sgorio yn erbyn y meini prawf.*

Bydd ceisiadau'n cael gwiriadau ansawdd cychwynnol ar sail darpariaeth ar gyfer cymhwysedd a chyflawnrwydd cyn cael eu symud ymlaen i asesiad technegol. Nod Salix yw cadarnhau a yw ceisiadau wedi methu neu yn bwrw ymlaen i gam dau o fewn pythefnos i'w cyflwyno.

Bydd yr adolygiad technegol yn cael ei gynnal gan dîm Technegol Ynni a Charbon Salix ac asesydd technegol allanol a fydd yn rhoi sicrwydd annibynnol ychwanegol bod modd cyflawni'r prosiect, a bod modd cyflawni'r arbedion disgwylid yn rhesymol. Nod tîm technegol Ynni a Charbon Salix a'r contractwyr yw cwblhau asesiadau mewn 6-8 wythnos. Gall cymhlethdod y prosiect gynyddu amserlenni. Dylai ymgeiswyr ymdrechu i

ymateb i unrhyw eglurhad yn ystod y broses asesu o fewn tri diwrnod gwaith. Gall oedi wrth ymateb arwain at fethiant yr asesiad.

Bydd methu â darparu'r holl ddogfennau hanfodol, a restrir uchod, yn arwain at fethiant y cais. Ni fydd ymgeiswyr yn gallu darparu gwybodaeth ategol ychwanegol ar ôl eu cyflwyno i sicrhau tegwch a phenderfynu ar ansawdd y cyflwyniadau o'r cychwyn cyntaf.

Cyfraniad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol (e.e. creu swyddi, cystadleurwydd, lles, bioamrywiaeth).

Meini prawf	Pwysoliad	Yr hyn rydym yn edrych amdano
Asesiad Strategol	15%	<i>Gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfnod dylunio'r prosiect, megis manylion y prosiect, sut y bydd y prosiect yn bodloni amcanion strategol a chynlluniau yn y dyfodol i ddatgarboneiddio'r adeilad(au).</i>
Dichonoldeb Technegol	30%	<i>Dangos bod y technolegau arfaethedig wedi eu nod a'u dylunio yn briodol a'u bod o'r maint cywir. Dylai'r broses hon ddilyn dull adeilad cyfan ac egwyddorion ffabrig yn gyntaf.</i>
Costau Ariannol	20%	<i>Tystiolaeth o gost dangosol ar gyfer yr holl fesurau sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y prosiect, gan gynnwys ystyriaeth o gostau gweithredol.</i>
Cyflawni Prosiect	20%	<i>Manylion rhaglen a chynlluniau'r prosiect sydd ar waith i reoli agweddau ar gyflawni'r prosiect.</i>
Cyfraniad Cymdeithasol	15%	<i>Cyfraniad at Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol a buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol (e.e. creu swyddi, cystadleurwydd, lles, bioamrywiaeth).</i>

Mae Salix yn annog ymatebion cynhwysfawr, diamwys o ansawdd uchel sy'n dangos dealltwriaeth drylwyr o'r gofyniad a sut y bydd yn cael ei gyflawni'n llawn.

5.4 Canlyniad

Bydd ceisiadau'n cael eu rhestru yn eu trefn, a bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn unol â'r sgôr a gyflawnwyd yn ystod y broses asesu. I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i geisiadau gyrraedd lleiafswm sgôr o 65% ar draws y cais. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r lleiafswm o ran gofynion yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid.

Gofynnir i geisiadau sy'n symud ymlaen drwy'r asesiad fynychu 'galwad cyflawni'. Bydd yr alwad yn cael ei chynnal rhwng aelod o dîm Salix, y prif gyswllt, Swyddog Awdurdodi, a chontractwr(wyr) (os yn berthnasol) i drafod y prosiect a sicrhau bod gofynion yr arian wedi'u deall.

Amodau'r benthyciad

Bydd yr holl fenthyciadau yn cael eu cyflwyno gydag amodau i sicrhau bod prosiectau'n bodloni'r pwrpas cyllido a'r meini prawf. Bydd y rhain yn cael eu rhestru yn y cytundeb benthyciad, pob un â dyddiad penderfyniad y mae'n ofynnol i dderbynwyr benthyciadau ei fodloni.

Adborth

Bydd adborth yn cael ei roi i bob ymgeisydd ar feysydd gwella cais.

5.5 Dyfarnu cyllid

I sicrhau'r defnydd gorau o'r arian sydd ar gael wrth gyflawni diben Digarbon, mae Salix, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cadw'r hawl i ariannu ceisiadau'n rhannol. Bydd Salix yn ymdrechu i leihau'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar eich cais i Digarbon, fodd bynnag, os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd, cytunir ar hyn ar y cyd rhwng Salix a'r ymgeisydd cyn cyflwyno cytundeb benthyciad.

Rhaglen Ariannu Cymru

I sicrhau bod cyllid Digarbon ar gael i gynifer o ymgeiswyr â phosibl, mae Salix ar ran Llywodraeth Cymru, yn cadw'r hawl i ddyrannu cyllid benthyciad o Raglen Ariannu Cymru i fesurau sy'n cydymffurfio â meini prawf Rhaglen Ariannu Cymru.

Mae Rhaglen Ariannu Cymru yn gynllun a weinyddir gan Salix ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau arbed ynni. Rhaid i brosiectau cymwys o dan y cynllun fodloni cap cost carbon o £350 tCO₂e a meini prawf ad-dalu 10 mlynedd. Mae'n bosibl y bydd gan gais llwyddiannus i Digarbon fesurau sy'n gymwys ar gyfer Rhaglen Ariannu Cymru ac felly, er mwyn pellhau cyrhaeddiad cyllid Digarbon gallai Salix ddewis ariannu rhan o'ch cais drwy Raglen Ariannu Cymru. Bydd Salix yn ymdrechu i leihau'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar eich cais i Digarbon, fodd bynnag, os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd, cytunir ar hyn ar y cyd rhwng Salix a'r ymgeisydd cyn cyhoeddi cytundeb benthyciad. Bydd yn ofynnol i fesurau a ariennir drwy Raglen Ariannu Cymru ad-dalu o fewn cyfnod o 10 mlynedd a byddant yn ddarostyngedig i'r un tâl llog o 2.05%.

Cyhoeddi cytundeb benthyciad

Bydd cadarnhad o gyllid yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr llwyddiannus trwy gyhoeddi cytundeb benthyciad trwy DocuSign. Rhaid i gopi o'r cytundeb hwn gael ei lofnodi gan Swyddog Awdurdodi'r ymgeisydd o fewn deg diwrnod gwaith. Mae Salix yn cadw'r hawl i dynnu ceisiadau yn ôl os na ddychwelir y cytundeb benthyciad o fewn yr amserlen hon.

Mae'r cytundeb benthyciad yn amlinellu telerau ac amodau'r cynllun a'r atodlenni sy'n gysylltiedig â monitro'r prosiect yn barhaus, cyfrifo llog ac ad-dalu'r llog a'r benthyciad.

Cytuno ar y model ad-dalu

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu model ad-dalu arfaethedig gan ddefnyddio'r amserlen amorteiddio benthyciadau sydd wedi'i hymgorffori yn y ffurflen gais. Bydd Salix yn adolygu'r model ad-dalu hwn er budd defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

Wrth ddatblygu eich model ad-dalu arfaethedig, mae Salix yn gofyn i ymgeiswyr ystyried y canlynol:

- Rhaid ad-dalu'r holl fenthyciadau sy'n weddill (cyfalaf a llog cronedig) i Salix erbyn 31 Hydref 2048.
- Ystyriwch bod ad-daliadau cyfalaf blynyddol yn 'rhesymol' yn seiliedig ar yr arbedion ariannol disgwylidiedig a/neu allu'r sefydliad i ad-dalu.
- Mae Salix yn cadw'r hawl i ddyrannu cyllid, yn amodol ar gydymffurfiaeth, o Raglen Ariannu Cymru. Mae hyn yn golygu y gallai'r model ad-dalu a gynigir wrth ymgeisio newid. Bydd Salix yn gweithio gyda'r derbynydd benthyciad llwyddiannus i gytuno ar fodel ad-dalu diwygiedig cyn cyhoeddi'r cytundeb benthyciad.

Gellir rhannu manylion y cais â chorff hyd braich perthnasol sy'n gyfrifol am gyllid addysg drydyddol i hwyluso cymeradwyo a chyflawni prosiectau yn llwyddiannus. Dylai Sefydliadau Addysg Uwch nodi bod y cyllid hwn o fewn cwmpas gofynion cymeradwyo benthycia Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'i olynydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Mae Salix yn annog ymgeiswyr perthnasol i ymgysylltu â'r cyrff hyn yn ystod y broses ymgeisio o ystyried yr amserlen fer i'w chymeradwyo yn dilyn hysbysiad o gais llwyddiannus.

6 Ymgeiswyr llwyddiannus

Nod Salix yw hwyluso'r gwaith o gyflawni'r holl brosiectau cymeradwy yn llwyddiannus trwy gymorth ymarferol ac arweiniad yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd o brosiectau blaenorol a thrwy weithio gydag ystod eang o

asiantaethau.

Bydd gan bob derbynydd benthyciad reolwr perthynas Salix pwrpasol i gynorthwyo gydag ymholiadau a chefnogi'r prosiect. Gall prosiectau mwy a/neu fwy peryglus hefyd fod ag uwch reolwr Salix fel noddwr.

6.1 Gofynion adrodd

Mae'n ofynnol i dderbynwyr benthyciadau gadw cysylltiad rheolaidd â Salix trwy gydol y gwaith o gyflwyno'r prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd wedi'u trefnu ac adroddiad monitro chwarterol gyda diweddariadau i gofrestrau risg, rhaglenni prosiect, a llywodraethu prosiectau a rennir gyda'r rheolwr perthynas Salix penodedig.

Dylai'r adroddiad gwmpasu gwaith allweddol a wnaed o fewn y cyfnod hwnnw, y pwyslais ar gyfer y cyfnod nesaf, dyddiadau erbyn pryd y cyflawnir cerrig milltir allweddol, newidiadau disgwylidig i raglen y prosiect, cost a/neu gwmpas, risgiau a mesurau lliniaru. Bydd y templed adrodd a'r amserlen yn cael eu rhannu gan Salix unwaith y bydd y cytundeb benthyciad wedi'i lofnodi.

Dylai adroddiadau monitro gael eu cyflwyno gan ymgeiswyr i'w rheolwr perthynas Salix a neilltuwyd ym mis cyntaf pob chwarter cyllidol sy'n cwmpasu gweithgareddau ar gyfer y chwarter cyllidol blaenorol. Bydd dyddiadau adrodd yn cael eu rhannu gan Salix unwaith y bydd y cytundeb benthyciad wedi'i lofnodi.

Trwy gytundeb ar y cyd, gall corff llywodraeth fel Salix Finance neu Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ymweld â'r ymgeisydd a'r safleoedd cysylltiedig ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyflawni prosiectau.

6.2 Newidiadau i'r prosiect

Yn ystod y gwaith o ddylunio a chyflwyno'r prosiect, os yw derbynydd benthyciad llwyddiannus eisiau neu angen gwneud newidiadau i'r prosiect, rhaid i dderbynwyr benthyciadau hysbysu Salix cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â meini prawf y cynllun. Dilynir gweithdrefn cais am newid sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ffurflen gais wedi'i diweddaru a dogfennau ategol i sicrhau bod meini prawf Digarbon yn parhau i gael eu bodloni.

Oherwydd mecanwaith ariannu'r cynllun, ni all Salix warantu ceisiadau i gynyddu na lleihau gwerth benthyciad. Byddwn yn ymdrechu i adolygu'r rhain fesul achos.

7 Talu ac ad-dalu'r benthyciad

7.2 Tynnu'r benthyciad i lawr

Unwaith y bydd y cytundeb benthyciad wedi'i lofnodi gan Salix a derbynydd y benthyciad, bydd y cronfeydd benthyciad yn cael eu cyflwyno fel un taliad ymlaen llaw. Bydd y dyddiad tynnu i lawr hwn yn cael ei gytuno rhwng Salix a'r derbynydd benthyciad yn y cytundeb benthyciad.

7.3 Manylion a chyfraddau llog y benthyciad

Bydd cyfradd llog sefydlog ar gyfradd fenthycia bresennol y llywodraeth o 2.05% yn cael ei chymhwyso ar y benthyciad. Ni fydd y gyfradd yn newid yn ystod cyfnod y benthyciad.

Nid yw'r benthyciad wedi'i warantu a rhaid ei ad-dalu'n llawn erbyn 31 Hydref 2048.

7.4 Ad-dalu'r benthyciad

Bydd ad-dalu'r llog a gronnwyd a chronfeydd cyfalaf ar y benthyciad yn cael eu gwneud ar wahân. Bydd yr amserlen ad-dalu yn cael ei nodi yn atodlen amorteiddio benthyciadau'r cytundeb benthyciad, bydd hyn yn seiliedig ar yr atodlen amorteiddio a gyflwynir gan ymgeiswyr a'i dderbyn gan Salix yn ystod y cam ymgeisio.

Ad-daliadau llog a chyfalaf

Bydd llog yn dechrau cronni o'r dyddiad y tynnir y benthyciad i lawr. Bydd ad-daliadau ar y llog yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2024-2025. Bydd y llog yn cael ei gasglu'n flynyddol wedi hynny.

Bydd ad-daliadau ar y cyfalaf yn dechrau ar ôl i'r prosiect ddod i ben a byddant yn cael eu casglu'n flynyddol. Bydd y dyddiad cwblhau a'r ad-daliadau dilynol ar y cyfalaf yn cael eu nodi yn yr amserlen amorteiddio benthyciadau.

Ad-daliadau cynnar

I wneud ad-daliad cynnar, rhaid i dderbynwyr benthyciadau hysbysu Salix heb fod yn hwyrach na thri mis cyn y dyddiad casglu nesaf. Nid oes unrhyw ffioedd wrth wneud ad-daliad cynnar.

7.5 Monitro ac adrodd ar ôl cwblhau

At ddibenion monitro, a gwerthuso'r cynllun, bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus, yn unol â thelerau ac amodau'r benthyciad, gyflwyno adroddiad sero net Cymru blynyddol i Lywodraeth Cymru fel rhan o [adroddiad Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru](#). Mae angen cyflwyno'r adroddiad sero net blynyddol am y tro cyntaf ar gyfer allyriadau blwyddyn ariannol 2024/25, rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn hydref 2025.

8 Cymorth a chyngor

Cyfeiriwch at wefan Salix i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau allweddol a sut i wneud cais.

Mae gan Salix dimau sydd â gwybodaeth arbenigol am wahanol feysydd o'r sector cyhoeddus, yn ogystal â thîm Technegol Ynni a Charbon mewnol. Am unrhyw ymholiadau, [cysylltwch â ni](#).

Mae [Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru](#) yn cynnig cyngor a chymorth technegol, masnachol a chaffael i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu eu prosiectau ynni a lleihau carbon.

Atodiad 1 – Rhestr technolegau cymwys

Math o brosiect	Math o waith	Oes y Mesur
Gwresogi carbon isel, ffabrig yr adeilad a systemau ac allyrwyr dosbarthu gwres		
Gwresogi carbon isel	Pwmp gwres ffynhonnell aer (aer i ddŵr)	20
	Pwmp gwres ffynhonnell aer (aer i aer)	20
	Pwmp gwres ffynhonnell dŵr	25
	Pwmp gwres ffynhonnell daear	25
	Cysylltu â gwres ardal presennol	30
	Cysylltu â rhwydwaith gwres ar y safle	30
	Dŵr poeth - gwresogyddion man defnyddio trydan	12
	Solar thermol	25
	Biomass	20
	Boeler trydan	20
	Gwresogydd trydan	10
	Gwresogydd panel pelydrol trydan	20
	Gwelliannau i ffabrig adeilad	Inswleiddio waliau ceudod
Inswleiddio waliau allanol		30
Ffenestri dwbl gyda fframiau metel neu blastig		30
Leinin wal sych		27
Inswleiddio'r atig		27
Inswleiddio llawr - llawr pren crog		30
Inswleiddio llawr - llawr solet neu fath arall		30
Inswleiddio to		7.92
Gwydr eilaidd		29.25
Inswleiddio – atal drafftiau		8.45
Drysau cyflymder awtomatig		8.45
Drysau awtomatig/troi		29.25
Lobi drafft (allanol)		29.25
Lobi drafft (mewnol)		8
Ffoil adlewyrchol ar reiddiaduron (waliau allanol)		9
Inswleiddio pibellau gwresogi (allanol)		22.5
Inswleiddio pibellau gwresogi (mewnol)		22.8
Uwchraddio dosbarthu ac allyrru gwres	Adfer gwres	10.83
	Gwresogi - rheolyddion ar wahân	6.84
	Gwresogi – gwelliannau i bibellau dosbarthu	15.2
	Gwresogi - falfiau rheoli parth	11.88
	Cyfnewidydd gwres plât	28.5
	Amnewid trap stêm	15.2
	Storfeydd thermol	18
Dŵr poeth	Cyfyngu llif	14
	Dŵr poeth - gwelliannau dosbarthu	18
	Dŵr poeth – cawodydd effeithlon	8
	Dŵr poeth - tapiau effeithlon	11
Mesurau eraill		
Adnewyddadwy	Ynni dŵr bach	22.5
	Solar ffotofoltaig	17.6
	Tyrbin gwynt	15.2
Ynni o Wastraff	Treulio anaerobig	15.2

	Llosgi	15.2
Biomass	Biomass	20
Cerbydau trydan	Cerbydau trydan	Amh.
	Seilwaith gwefru cerbydau trydan	Amh.
Effeithlonrwydd Ynni	BEMS - heb eu rheoli o bell	6.84
	BEMS - wedi'u rheoli o bell	8.42
	Rheolaethau modur cyflymder sefydlog	11.4
	Moduron - gyriannau gwregys gwastad	11.4
	Gyriannau cyflymder amrywiol	10.26
	Moduron - effeithlonrwydd uchel	15
	Switsys amser	6.84
	LED - gosodiad newydd	25
	LED - yr un gosodiad	13
	Goleuadau - rheolyddion ar wahân	8.89
	System rheoli goleuadau ganolog	10.26
	Oeri - system reoli	6.84
	Oeri - ailosod peiriannau / uwchraddio	8.21
	Oeryddion effeithlon o ran ynni	14.44
	Oeri rhydd	13.68
	Amnewid aerdymheru gydag oeri anwedddol	13.68
	Ffaniau - uned trin aer	23.75
	Ffaniau - effeithlonrwydd uchel	14.25
	Deunydd newid cyfnodol	23.75
	Lleithyddion uwchsain	7.22
	Awyru - dosbarthu	30
	Awyru - rheolaethau presenoldeb	6.84
	Colled isel	30
Newid tapio newidyddion	30	
Mesurau galluogi	Batri - ar y cyd ag adnewyddadwy	Amh
	Batri - annibynnol	Amh
	Gwelliannau capasiti	Amh
	Dosbarthiad trydanol	Amh
	Uwchraddio trydan sy'n dod i mewn	Amh
	Mesuryddion - llif	Amh
	Mesuryddion - gwres	Amh
	Mesuryddion - eraill	Amh
	Mesuryddion clyfar	Amh
	Uwchraddio cyflenwad ynni na ellir tarfu arno sy'n cael ei bweru gan drydan	Amh.

Atodiad 2 – Esiamplau o wybodaeth dechnegol ategol

Meini prawf cynllun	
'Dull adeilad cyfan'	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion ffabrig presennol adeiladau ar gyfer pob adeilad gan gynnwys cyflwr ac oedran elfennau ffabrig yr adeilad. • Darparu gwerthoedd-U gyda methodoleg. • Darparu astudiaeth ddichonoldeb i nodi pa welliannau ffabrig adeilad a mesurau effeithlonrwydd ynni y gellir eu gweithredu. • Ar gyfer unrhyw fesurau ffabrig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cais, dylid darparu tystiolaeth i ddangos bod mesurau o'r fath eisoes wedi'u rhoi ar waith i leihau gwastraff ynni. • Cyfrifiadau colled gwres uchaf. • Yr holl bwyntiau data a gwblhawyd yng Ngham 2a Dylunio Prosiect Adeilad y Ffurflen Gais. • Os na ellir bodloni dull 'adeilad cyfan', tystiolaeth (e.e. astudiaeth dichonoldeb neu dystiolaeth gost) i ddangos eu bod wedi eu hystyried ac nad ydynt yn rhesymol hyfyw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r hyn y mae ymgeiswyr eisoes wedi gweithredu'r lefel uchaf bosibl o inswleiddio yn yr adeilad(au) sydd wedi'u cynnwys yn y cais.
Meintioli system wresogi carbon isel	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifiadau colled gwres uchaf. • Dylid darparu manylion ar sut y bydd galw DHW yn cael ei fodloni. • Holl bwyntiau data wedi'u cwblhau yng Ngham 3b System Gwresogi y Ffurflen Gais. Bydd y celloedd gorfodol ar y tab hwn yn troi'n goch os nad yw'n gyflawn.
Arfarnu opsiynau	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth bod yr holl opsiynau sydd ar gael wedi'u harchwilio ar gyfer mesurau gwresogi carbon isel, gwelliannau i ffabrig adeiladau a mesurau effeithlonrwydd ynni. • Sylwebaeth ar ba fesurau sydd fwyaf addas a pham y diystyrwyd mesurau eraill. • Dylai hyn gynnwys ystyried cost y system gychwynnol yn ogystal â chostau gweithredol a chynnal a chadw.
Ffurflen gais a thystiolaeth ategol	
Cyfrifiadau arbed ynni	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifiadau arbed ynni Excel heb eu cloi yn dangos methodoleg. • Rhaid i ffigyrau llinell sylfaen ar gyfer y defnydd o danwydd ffosil fod yn seiliedig ar ddata mesuryddion, biliau ynni y flwyddyn flaenorol a/neu y DEC diweddaraf. • Os defnyddir modelu, rhaid rhoi sylwebaeth ar y fethodoleg. • Dylai'r ffigyrau mewn gwybodaeth ategol fod yn union yr un fath â'r rheini ar y ffurflen gais.
Manylion penodol i'r system	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl bwyntiau data a gwblhawyd yn Cam 2a Dylunio Prosiect Adeilad a Cam 3b System Gwresogi yn y ffurflen gais. • Arolygon safle o allyryddion cyfredol, a thystiolaeth eu bod wedi'u mesur yn gywir ar gyfer y system arfaethedig. Os oes angen, tystiolaeth o fethodoleg y tu ôl i ddewis yr allyrydd gwres. • Tystiolaeth o sut mae'r system wresogi arfaethedig wedi'i meintioli, gan gyfrif am ddull adeilad cyfan a'r systemau gwresogi presennol/sy'n weddill. • Sgematig y system wresogi bresennol ac arfaethedig, yn manylu ar sut y bydd y system yn gweithredu yn yr adeilad. • Os yw'r system wresogi arfaethedig yn hybrid neu'n ddeufalent gyda pheiriannau tanwydd ffosil presennol (nad yw'n ddiwedd oes), dylid rhoi sylwebaeth sy'n manylu ar sut y bydd gweithrediad y system wresogi

	<p>carbon isel yn cael ei flaenoriaethu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion am wneuthurwyr arfaethedig yr holl fesurau a thafenni data os ydynt ar gael e.e., ASHP, allyryddion gwresogi (os ydynt yn newydd).
Tystiolaeth o gost	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad cost llawn ar ffurf Excel i gynnwys manylion costau cyflenwi a gosod ar gyfer pob mesur ac unrhyw waith galluogi cysylltiedig. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i'r seilwaith trydanol ac unrhyw ofnyion ychwanegol newydd y gallai fod eu hangen. • CAPEX. • Dyfynbrisiau ac anfonebau i gefnogi costau'r prosiect.
Cysylltiad trydanol	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion a all y seilwaith dosbarthu pŵer lleol gefnogi'r system wresogi drydanol arfaethedig. • Sylwebaeth ynghylch a yw'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) wedi ymgysylltu â'r cam ymgysylltu. Os na, rhaid cynnwys ymgysylltiad DNO yn rhaglen y prosiect
Rhwydweithiau gwres	<ul style="list-style-type: none"> • Os yw'r cais ar gyfer rhwydwaith gwres, rhaid darparu cyfrifiadau ffactor carbon pwrpasol. • Rhaid rhoi cyfrif am golledion gwres sylfaenol mewn cyfrifiadau. • Rhaid i geisiadau am rwydwaith gwres ardal gadarnhau nad yw'r elfen benodol yn y cais hwn yn cael ei hariannu trwy ffynonellau eraill.
Cerbydau trydan	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl bwyntiau data perthnasol a gwblhawyd yn Cam 2b Cynnig Cerbydau Trydan ac offeryn cymorth Cam 4 yn y ffurflen gais. • Rhaid i geisiadau am gerbydau trydan newydd nad ydynt yn cynnwys amnewid cerbyd tanwydd ffosil presennol gyflwyno cynllun pontio fflyd.
Manylion llawn y safle/adeilad	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl bwyntiau data a gwblhawyd yng Ngham 3a Manylion yr Adeilad yn y ffurflen gais. Bydd y celloedd gorfodol ar y tab hwn yn goch os nad ydynt yn gyflawn. • Rhaid i ffigurau cyn ac ar ôl gwella ar gyfer colli gwres brig yn y ffurflen gais gael eu cefnogi gan gyfrifiadau. • Tystiolaeth o ddefnydd tanwydd ffosil a thrydan blyneddol presennol, e.e. data mesuredig, biliau ynni'r flwyddyn flaenorol a/neu'r DEC diweddaraf. • Byddai lluniadau safle clir yn fanteisiol, gan ddangos cynllun y mesurau arfaethedig.
Data y system bresennol a'r system arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl bwyntiau data a gwblhawyd yng Ngham 3b System Wresogi y ffurflen gais. • Sgematig y system wresogi bresennol ac arfaethedig. • Tystiolaeth o effeithlonrwydd y safle gwresogi presennol yn unol ag adran 4.10. • Tystiolaeth y gall y system arfaethedig weithredu'n effeithlon ar dymereddau llif a dychwelyd arfaethedig.
Dilyniannu arbedion ynni	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth bod arbedion ynni'r system gwresogi carbon yn seiliedig ar ffigurau ar ôl gwelliannau i ffabrig yr adeilad a mesurau effeithlonrwydd ynni. Gellir dangos hyn yn y cyfrifiadau arbed ynni.
Costau tanwydd	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth o gost tanwydd ar hyn o bryd (e.e. biliau ynni). • Sylwebaeth ar gost tanwydd arfaethedig a beth mae hyn yn seiliedig arno.
Manylion llywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> • Meini prawf • Tystiolaeth llywodraethu prosiectau a ddarparwyd e.e. sylwebaeth ar strwythur sefydliadol, cynllun gweithredu'r prosiect a phrofiad mewnol ac allanol blaenorol.
Cofrestr Risg	<ul style="list-style-type: none"> • Cofrestr risg manwl yn amlygu ac yn graddio'r risgiau sy'n benodol i'r prosiect arfaethedig a'r camau lliniaru a gynigir.
Rhaglen y Prosiect	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen fanwl y prosiect gyda cherrig milltir allweddol ar gyfer pob mesur. • Dylid cynnwys cynllun wrth gefn priodol.

	<ul style="list-style-type: none">• Dylid diweddarau rhaglen y prosiect wrth i'r rhaglen fynd yn ei flaen.
--	--

Atodiad 3 – Geirfa

Swyddog Awdurdodi Unigolyn o sefydliad cymwys sydd mewn swydd awdurdodol i gymeradwyo a llofnodi dogfennau swyddogol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Gall fod yn brif weithredwr neu'n swyddog cyllid, neu'n uwch swyddog arall. Dylid nodi'r unigolyn hwn a chytuno arno cyn gwneud cais a dylai fod yn rhan o strwythur llywodraethu'r prosiect.

Metrig cost carbon Yn cyfeirio at yr offeryn a ddefnyddir i adolygu'r buddion dros oes y prosiect i arfarnu gwerth am arian y prosiect arfaethedig. Cyfrifir hwn yn awtomatig gan offeryn cymorth Salix yn y ffurflen gais. Er nad oes gofyniad trothwy i brosiect gael ei ystyried yn gymwys, bydd prosiectau yr ystyrir eu bod â gwerth effeithiol am arian yn cyflawni cost carbon o dan £550 tCO₂e. Anogir ymgeiswyr i gyflwyno cais gyda chost carbon islaw'r ffigur hwn, er bod Salix yn deall y gellir mynd y tu hwnt i'r ffigur hwn mewn rhai amgylchiadau penodol, y dylid eu hamlinellu yn y ffurflen gais.

Datganiad Gwrth-dwyll Dogfen a lofnodwyd gan y Swyddog Awdurdodi yn cadarnhau, ar ran y corff sector cyhoeddus, eu hymrwymiad i'r datganiadau y manylir arnynt yn y ddogfen.

Gwresogi ardal Lle mae gwresogi ar gyfer sawl adeilad mewn ardal leol yn cael ei ddarparu o ystafell neu ystafelloedd peiriannau allanol. Mae'r gwres fel arfer yn cael ei drosglwyddo i bob adeilad trwy rwydwaith o bibellau dŵr poeth neu stêm tanddaearol wedi'u hinswleiddio'n fawr. Fe'i gelwir hefyd yn rhwydweithiau gwres neu telewresogi. Ceir y gwres yn aml o beiriannau cydgynhyrchu sy'n llosgi tanwydd ffosil neu fïomas, ond defnyddir gorsafoedd boeler gwres yn unig, gwresogi geothermol, pŷmpiau gwres a gwres solar canolog hefyd, yn ogystal â gwastraff gwres o gynhyrchu trydan pŵer niwclear.

Seilwaith gwefru cerbydau trydan (EVCI) Yn cyfeirio at y rhwydwaith o orsafoedd gwefru a seilwaith/offer ategol a ddefnyddir i alluogi'r defnydd o gerbydau trydan ac i hwyluso gwefru cerbydau trydan. Mae cydrannau nodweddiadol i'r seilwaith gwefru (e.e. gorsafoedd gwefru) yn cynnwys y ffynhonnell bŵer, y newidydd, offer cyflenwi gwefru a'r switsfwrdd dosbarthu.

Peiriant gwresogi Uned sy'n cynhyrchu ynni thermol i'w ddefnyddio ar gyfer gofynion gwresogi lle a/neu dŵr poeth ar gyfer adeiladau, enghreifftiau'n cynnwys boeleri ac unedau Gwres a Phŵer Cyfunol (CHP).

Cytundeb y benthyciad Y contract cyfreithiol rhwng y corff sector cyhoeddus (derbynnnydd y benthyciad) a'r benthyciwr (Salix Finance) sy'n manylu ar delerau ac amodau, a rhwymedigaethau'r partion o dan y benthyciad.

Amserlen amorteiddio benthyciad Cofnod o daliadau wedi'u hamserlenni wedi'u rhannu rhwng yr ad-daliadau cyfalaf a llog, sy'n manylu ar sut y bydd y benthyciad yn cael ei dalu dros ei oes.

Gwresogi carbon isel System wresogi sy'n allyrru ychydig neu ddim carbon uniongyrchol. Pŷmpiau gwres trydan yw'r ateb gwresogi carbon isel mwyaf cyffredin. Maent yn aml sawl gwaith yn fwy effeithlon na boeler tanwydd ffosil a bydd yr allyriadau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan yn lleihau dros amser i sero wrth i'r grid pŵer ddatgarboneiddio.

Prif gyswllt Unigolyn sy'n gyfrifol gan ymgeisydd y sector cyhoeddus am oruchwylio'r prosiect a chyflawni dyletswyddau fel cwblhau adroddiadau monitro misol, rhannu tystiolaeth talu, a sicrhau bod Salix yn cael ei ddiweddarau wrth gyflwyno'r prosiect.

Ffactor parhaus Oes y dechnoleg effeithlonrwydd ynni ar gyfartaledd i ffactor mewn diraddiad. Mae'r ffactorau parhaus ar gyfer technolegau unigol a ddefnyddir gan Salix yn seiliedig ar y rhai sydd wedi'u deillio gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Defnyddir y ffactor parhaus wrth gyfrifo cost i arbed tunnell o CO₂e dros oes cais am fesurau effeithlonrwydd ynni (£/tCO₂eLT).

Ad-daliadau (cyfalaf) Ad-daliad ar y benthyciad sy'n cyfrannu at ad-dalu'r swm gwreiddiol.

Ad-daliadau (llog) Ad-daliad ar y benthyciad i dalu'r taliadau llog ar y benthyciad.

'Menter' cymhorthdal a ddiffinnir yn adran 7 o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Dull 'adeilad cyfan' Dull o ôl-osod ar gyfer datgarboneiddio sy'n ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at ddefnydd ynni adeilad gyda'i gilydd i nodi'r ateb mwyaf cost-effeithiol. Er enghraifft, bydd buddsoddi mewn gwella lefelau inswleiddio ffabrig yr adeilad yn lleihau maint y gwaith gwresogi carbon isel sydd ei angen, yn gwella cysur thermol ac yn sicrhau arbedion ar filiau tanwydd. Gall buddsoddi mewn lleihau'r defnydd o drydan brig leihau'r angen i uwchraddio seilwaith trydanol adeilad i ddarparu ar gyfer gosod pwmp gwres.

Rheoli diwygiadau

Fersiwn	Diwygiadau a wnaed	Dyddiad
V1.0	Creu.	Ebrill 2024